# TROSEDDAU
## A CHANLYNIADAU

# CRIMES
## AND CONSEQUENCES




Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales FIRE AND RESCUE SERVICE

Gwasanaeth Tân ac Achub Fire and Rescue Service

# CYNNWYS

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Nodau ac Amcanion | 4 |
| Gweithdai | 8 |
| Ymladdwr tân am ddiwrnod | 9 |
| Chwaraeon yn y Fan a'r Lle / Yn Lleol i Chi | 10 |
| Gwerthusiad | 11 |
| Adborth | 12 |

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Prosiectau Troseddau a Chanlyniadau Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru er mwyn adeiladau partneriaethau ledled Cymru i addysgu a chodi ymwybyddiaeth ynghylch negeseuon allweddol y Gwasanaeth Tân ymysg pobl ifanc rhwng 11-25 oed.

Mae'r prosiect yn anelu at godi ymwybyddiaeth am ganlyniadau gweithrediadau ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn ffordd wedi'i thargedu fydd yn cynnwys Pobl Ifanc;

- Sy wedi cyflawni troseddau
- Sy mewn perygl o droseddu
- Sy'n cymryd rhan mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Sy'n dangos ymddygiad sy'n beryglus neu'n heriol
- Sy'n byw mewn cymdeithasau difreintiedig, sy'n cael eu cefnogi drwy ymyrraeth gynnar a chydweithio effeithiol â phartneriaid.

Yn ôl yr ystadegau mae pobl ifanc rhwng 11-25 oed mewn perygl mawr o gael eu lladd neu ddioddef anafiadau difrifol neu gymryd rhan mewn Cynnau Tanau:

- Mae 1 allan o bob 4 gyrrwr sy'n marw ar y ffyrdd o dan 25 mlwydd oed.
- Marwolaethau ar y ffyrdd sy'n gyfrifol yn bennaf am ladd pobl 17-25 oed.
- Adroddwyd dros 7000 o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thân yn ystod 2010, â chost i gymdeithas o tua 17.5 o filiynau o bunnoedd.

## NODAU

Y prif nod yw cynorthwyo i gyrraedd amcan allweddol o fewn Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan sef lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ymddygiad troseddol a:

- Lleihau nifer yr ymosodiadau Tanau Bwriadol, tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thanau, megis ymosodiadau ar Ymladdwyr Tân a galwadau ffug.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Asiantaethau a Gwasanaethau allanol a gorsafoedd tân lleol lle bydd y prosiect yn targedu'r meysydd sydd angen sylw a ddynodir drwy gudd-wybodaeth.
- Gweithio â phobl ifanc sydd o bosib mewn perygl rhag ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol.
- Addysgu pobl ynghylch canlyniadau gweithredoedd a sut gallai sefyllfaoedd y gallant fod ynddynt yn effeithio arnyn nhw eu hunain neu eu teuluoedd a'u cymunedau.
- Lleihau nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â gyrwyr ifanc a theithwyr neu'r rhai sy'n ymwneud â throseddu ceir.

**SUT?**

'Drwy dynnu sylw plant a phobl ifanc oddi ar droseddau tân ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig arall' (Strategaeth yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc). Anelwn at gyrraedd y nodau hyn drwy ddarparu'r Prosiect Troseddau a Chanlyniadau â'r meysydd pynciol canlynol:

- Tanau Bwriadol
- Troseddu Cerbydau
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Ymosodiadau ar Griwiau Tân
- Galwadau Ffug a Maleisus

# TROSEDDAU A CHANLYNIADAU

**Mae gan y Prosiect Troseddau a Chanlyniadau'r hyblygrwydd i deilwra ymyrraeth ar gyfer anghenion grwpiau unigol.**

**TROSOLWG PROSIECT**

- Cynyddu ymwybyddiaeth o ganlyniadau TroseddduTanau, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: a Throseddu Cerbydau.
- Lleihau nifer y bobl ifanc sy'n cychwyn yn y system cyfiawnder troseddol neu'n dychwelyd iddi.

## AMCANION

- Defnyddio gwybodaeth flaenorol i egluro'r cysylltiadau rhwng effaith ac achos a rhagfynegi.
- Ystyried safbwyntiau gwahanol wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau ar sail gwybodaeth effeithiol.
- Cyfleu syniadau cymhleth a mynegi barn mewn amrediad eang o sefyllfaoedd gan ddefnyddio dulliau amrywiol priodol.
- Gwerthfawrogi, adlewyrchu a gwerthuso safbwyntiau eraill yn ddadansoddol ac ymateb yn briodol.
- Bod yn bendant a gwrthod unrhyw ddylanwad diangen gan gyfoedion neu eraill.
- Gwerthuso a darganfod ystod helaeth o ffynonellau gwybodaeth cymorth a chyngor lleol a chenedlaethol yn hyderus.
- Datblygu sgiliau ymarferol angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd.
- Derbyn cyfrifoldeb dros bob agwedd o ddatblygiad a lles personol a chymdeithasol.
- Datblygu parch i'ch hun yn ogystal ag eraill.

# TROSEDDAU A CHANLYNIADAU

## AMCANION

- Datblygu amrediad cyson o werthoedd personol a bod â'r hyder i'w gweithredu.
- Derbyn cyfrifoldeb personol dros gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach.
- Derbyn cyfrifoldeb personol dros newid eu ffordd o fyw wrth ymateb i faterion lleol a byd-eang.
- Arddangos cyfrifoldeb personol yn weithredol fel dinesydd byd-eang.

NOD Y WERS

- Codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau Tanau Bwriadol, Tanau Glaswellt Bwriadol, Troseddu Cerbydau, Galwadau Ffug ac Ymosodiadau ar Ymladdwyr Tân.
- Ystyried cyfrifoldebau diogelwch eu hunain ac eraill o fewn y gymuned. GWEITHIO GYDA'N GILYDD AM GYMRU WELL
- Ystyried effaith canlyniadau penderfyniadau negyddol ar y Gwasanaeth Tân, y teulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach.
- Creu dealltwriaeth o wneud penderfyniadau mwy gwybodus a lleihau'r perygl o ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/troseddol.

GEIRIAU ALLWEDDOL

Diogelwch, gwrthdyniadau, canlyniadau, pwysau gan gyfoedion, diffyg canolbwyntio, risg, perygl, y gyfraith, anafiadau, cosbau.

ADNODDAU

- Troseddau a Chanlyniadau Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru. Pecyn Cymorth/ DVD Addysgol.
- Bwrdd Gwyn/Taflunydd/Gliniadur/Seinyddion.
- Offer Chwaraeon – Chwaraeon yn Lleol i Chi.
- OGP a Pheiriant Tân ac Offer – Ymladdwr Tân am Ddiwrnod.

## GWEITHGAREDDAU

- Cyflwyno’r aelod/au priodol o staff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
- Cytuno ar Reolau Aur.
- Egluro – Amcanion Dysgu a Geiriau Allweddol.
- Trafod materion sy’n ymwneud â Throsedd Tanau, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throsedd Cerbydau.
- Sefydlu ymwybyddiaeth o’r gyfraith mewn perthynas â’r materion uchod.
- Sesiwn Holi ac Ateb i godi ymwybyddiaeth o’r uchod.

## PRIF WEITHGAREDDAU

- Pwysleisio bod gan Drosedd Tanau, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throsedd Cerbydau effeithiau canlynol a bod angen ystyried canlyniadau gweithredoedd.
- Esbonio pwysigrwydd cadw’n ddiogel.
- Sefydlu dealltwriaeth pobl ifanc o Drosedd Tanau, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throsedd Cerbydau.
- Trafod canlyniadau gweithredoedd.
- Arddangos enghreifftiau gan gynnwys Hysbysebion Ymgyrch Meddwl, deunydd ffilm DVD a lluniau llonydd.
- Goblygiadau Cyfreithiol.
- Cyflwyno gwe-dudalen briodol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer cyfarwyddyd.

## ADOLYGIAD/SESIWN LLAWN

- Atgyfnerthu’r canlyniadau cyfreithiol.
- Pwysleisio effeithiau canlynol ar y teulu, ffrindiau a’r gymuned gyfagos.

# GWEITHDAI

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymrwymedig i sicrhau mai ein cymunedau yw'r llefydd mwyaf diogel i fyw a gweithio ynddynt ac ymweld â nhw. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi mabwysiadu ymagwedd amlochrog ar gyfer ymgysylltu â'n cymunedau a'n pobl ifanc.

Mae'r prosiect yn rhan o'r ymagwedd honno ac maent yn anelu at addysgu a hysbysu pobl ifanc ynghylch peryglon tân, diogelwch ar y ffyrdd a materion yn ymwneud â'r gymuned a diogelwch personol.

GWEITHDAI GRŴP

Cyflwynir gweithdai grŵp Troseddau a Chanlyniadau mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys adeiladau gwasanaethau ac asiantaethau partner a Gorsafoedd Tân.

Mae'r gweithdai yn cynnal rhwng 1 - 6 awr o ymyrraeth i bobl ifanc
rhwng 11 a 25 oed. Mae nifer yr oriau a gyflwynir yn dibynnu ar anghenion y grŵp.

Cyflwynir y gweithdai o fewn Awdurdodau Unedol Cymru sy'n hysbys am Gynnau Tanau Bwriadol, Troseddu Cerbydau nifer fawr o Ymosodiadau ar Griwiau Tân a Galwadau Ffug a Maleisus.

Mae'r tîm Troseddau a Chanlyniadau yn defnyddio amrywiaeth o gyfarpar cyflwyno megis DVD rhyngweithiol, trafodaethau grŵp, adolygu gan gyfoedion, a digwyddiadau / Astudiaethau achos gwir.

Mae cynlluniau gwersi ar gyfer gweithdai ar gael ar gais.

Mae gwerthuso yn elfen allweddol o Droseddau a Chanlyniadau gan gynnig y posibilrwydd o fonitro pobl ifanc cyn ac ar ôl ymyrraeth i adnabod unrhyw newid o ran ymddygiad neu agwedd.

NODER: Dylid amlygu sensitifrwydd mewn perthynas â negeseuon allweddol gan yr asiantaeth cyfeirio cyn cychwyn unrhyw ymyrraeth.

# YMLADDWR TÂN AM DDIWRNOD

Nod ymgyrch Ymladdwr Tân am Ddiwrnod y tîm Troseddau a Chanlyniadau yw:

- Herio prosesau penderfynu negyddol
- Datblygu priodoleddau iachach person ifanc

Cyflawnir hyn drwy gynnal cwrs dwys un diwrnod o hyd sy'n cynnwys Adeiladu Tîm, Adeiladu Hyder ac Addysg gan weithio ar safle dril gwasanaeth tân.

Mae tîm pwrpasol yn gweithio'n agos â'r bobl ifanc a defnyddio dull adferol i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r Gwasanaeth Tân.



Mae'r gweithgareddau yn cynnwys:

- Rhedeg Pibellau
- Adeiladu Cronfeydd, a Chwilio ac Achub
- Datrys Problemau

Ceir dealltwriaeth werthfawr o rôl Ymladdwr Tân.

Erbyn i'r bobl ifanc adael bydd ganddynt fwy o wybodaeth ynghylch:

- Canlyniadau a pheryglon Tanau a gynheuwyd yn fwriadol a materion Diogelwch ar y Ffyrdd;
- Sut i fyw a gweithio'n ddiogel
- Ymwybyddiaeth fwy o'u gwerth eu hunain
- Gwella Sgiliau Rhyngbersonol
- Fwy o hunan barch
- Meddylwyr croyw



# TROSEDDAU A CHANLYNIADAU

## CHWARAEON YN Y FAN A'R LLE/ YN LLEOL I CHI

Mae Chwaraeon yn y Fan a'r Lle/Yn Lleol i  Chi yn ymyrraeth gynhwysiant cymdeithasol a seilir ar chwaraeon a gweithgareddau.

Mae Chwaraeon yn y Fan a'r Lle/Yn Lleol i  Chi yn rhoi cyfle syfrdanol ac amrywiol o ran chwaraeon i bobl ifanc o fewn cymunedau difreintiedig gan anelu at gynyddu eu cymhelliad.

Mae gan chwaraeon a gweithgareddau corfforol rôl bwysig mewn atal troseddu ieuenctid, gan anelu at gynnig dewisiadau amgen i gamddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy law chwaraeon.

Ymgyrch genedlaethol yw hon i brofi'r dulliau mwyaf effeithiol i rymuso pobl ifanc difreintiedig a'u galluogi i deimlo'n gyfforddus o fewn eu hamgylchedd eu hunain a dangos ffordd iddynt ystyried perchnogi'r ardaloedd lle maent yn byw.

Mae'r tîm Troseddau a Chanlyniadau yn defnyddio chwaraeon yn ffordd bositif i ymgysylltu, gan weithio'n agos â phartneriaid wrth gyflwyno.

Mae gweithdai grŵp yn dilyn yr ymgysylltu cychwynnol drwy chwaraeon.





## GWERTHUSIAD

Mae'r prosiect Troseddau a Chanlyniadau yn defnyddio'r hyn a elwir yn ffurflen Asesu Pobl Ifanc (FfAPI).
Dylinir y broses asesu er mwyn darganfod y risg a'r ffactorau diogelu sy'n chwarae rôl mewn troseddu person ifanc ac yn caniatau i'r prosiect i werthuso newid o ran ymddygiad ac agwedd cyn cyflwyno'r prosiect ac ar ôl ei gwblhau.
Mae'r FfAPI yn gymorth wrth ddangos y mathau o ymyrraeth sydd angen.

Rhennir yr hyn a ddarganfyddir ag asiantaethau/gwasanaethau ar gais ac ar ôl arwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Dangosodd darganfyddiadau 2015/2016:

**Ostyngiad o dros 80%** o ran cyfraddau aildroseddu mewn perthynas â gweithgarwch troseddol y Gwasanaeth Tân megis cynnau tanau bwriadol.

**Cynnydd o dros 90%** o ran Newid Agweddau'n Bositif.

# TROSEDDAU A CHANLYNIADAU

## ADBORTH

Diolch i'r Tîm Troseddau a Chanlyniadau am gwrs rhagorol a gyflwynwyd yn broffesiynol ac mewn ffordd oedd yn gweddu'r gynulleidfa.
Gwasanaeth Prawf Rhondda Cynon Taf

Diolch i'r Tîm Troseddau a Chanlyniadau... aeth y diwrnod yn dda. Diolch i'ch staff. Aeth e'n hwylus iawn. Roedd y menywod wedi mwynhau pob agwedd ohono.
CEM Parc Eastwood



Mwynheuodd ein criw Chwaraeon Stryd eu hunain yn fawr yng Ngorsaf Merthyr Tudful ac maent yn swnian yn gyson am wneud hyn eto!
Cymunedau'n Gyntaf Gogledd Merthyr Tudful

Doedd dim syniad gyda fi pa mor beryglus na chymaint mae sefyllfa yn gallu mynd allan o reolaeth os nad ydych chi'n talu sylw mewn cerbyd. Agoriad llygad yn sicr.
Person Ifanc – Ymddiriedolaeth y Tywysog

Roeddwn i'n teimlo mod i'n bwysig iawn heddiw yn gwisgo Cit Tân. Doeddwn i byth yn mynd i'r ysgol gan nad oeddwn yn hidio ryw lawer am awdurdod ond roeddwn i wrth fy modd hedddiw.
Person Ifanc - Dyfodol Cadarnhaol

Yn syml iawn, mae'r ymyrraeth hyd yn hyn wedi bod yn llwyddiant amlwg. Mae cynllun y modiwlau, yr ystafell ddosbarth- a'r gweithgareddau ymarferol sy'n dilyn yn gweithio'n berffaith yn yr amgylchedd hwn....
'Rwyf wedi gwylio'r dynion ar y ddau achlysur a gweld y balchder a'r hunan barch sy'n deillio o hyn... Yn syml, mae'r ymyrraeth hyd yn hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol.
CEM Y Parc

Yn dilyn y cwrs ces i lawer o nodiadau ysgrifenedig gan garcharorion i ddiolch am gael cymryd rhan mewn rhywbeth oedd yn berthnasol iddynt a'u teuluoedd.
**CEM a STI Y Parc**

'Rwy wedi dysgu cymaint heddiw. Roeddwn i'n meddwl mod i'n gwybod llawer ond 'rwy'n gwybod llawer mwy erbyn hyn. Mae canlyniadau rhai pethau wedi gwneud i mi feddwl o ddifri.
**Person Ifanc - ITEC**

Diolch i chi a'r tîm am bopeth rydych wedi dysgu i mi. Y peth cyntaf rwy'n mynd i wneud yw ffonio adref i sicrhau bod pawb yn cadw'n ddiogel.
**Person Ifanc - Parth Dysgu Coleg Gwent**



